

Dathlu yn Nhrefeca

Hyfrydwch i baw a deithiodd tuag at Drefeca ar fore Sadwrn, 17 Mehefin oedd bod y bore wedi gwawrio'n braf a chynnes. Daeth rhai mewn ceir a bysiau i fan geni'r Cyfundeb. Roedd yn gyfle i dathlu pen-blwydd ein Teulu Presbyteriaidd lle gynt y cyfarfu "teulu Trefeca." Roedd hi eisoes yn gynnes pan ddaethom ynghyd ac roedd y babell fawr a godwyd ar gyfer dathlu tri chan mlwyddiant William Williams, Pantycelyn yn lloches rhag yr haul tanbaid. Roedd yn fan ymgynnull hyfryd wrth i ni gwrdd â'n gilydd dros baneidiau o sudd neu goffi. Braf oedd cael gweld hen gyfeillion yn croesawu ei gilydd a chyfeillion newydd yn mwynhau'r gyfeillach yng ngerddi hardd Coleg Trefeca.

Arweiniwyd y diwrnod gan yr Athro John Gwynfor Jones, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol. Wedi iddo ein croesawu cawsom ein harwain ganddo yn ein gweddïau o ddiolch am gyfraniad Pantycelyn i bobl ar draws y byd am bron i dri chan mlynedd. Roedd Synod Mizoram wedi anfon eu cyfarchion i'w darllen yn y dathliad.

Cawsom ein harwain i ystyried *Bywyd, Emynau a Dylanwad William Williams*



Yr Athro John Gwynfor Jones (Llywydd y Gymanfa Gyffredinol) yng nghwmni'r Dr Eryn White, Aberystwyth.



Parch Iain Hodgins a'r Parch Ddr Sangkhuma, brodor o Mizoram

gan Dr Eryn White, Curadur Archifau'r Methodistiaid Calfinaidd a Darlennydd yn Adran Hanes Cymru, Prifysgol Aberystwyth. Awgrymodd y byddai rhai o emynau Williams, Pantycelyn hyd yn oed wrth i ni gyfarfod y bore hwnnw yn cael eu canu – boed mewn angladd, priodas, mewn torf rygbi neu ryw achlysur arall – rhywle yn y byd. Mae'n gwbl gywir i ddweud bod dylanwad emynau Williams bellach yn ffenomen ryngwladol.

Am iddo gael ei eni yng Nghefncoed fe geir rhai cyfeiriadau ato fel "Williams, Cefncoed", ond erbyn hyn mae "Pantycelyn" yn enw digonol. Cyfeiriwyd at ei addysg yn Academi Llwyn-llwyd ac at yr amgylchiadau a'i harweiniodd i wrando ar Howell Harris yn pregethu yn Nhalgarth at ei dröedigaeth yno.

Gan mai ef oedd yr ieuengaf o brif arweinwyr y mudiad Methodistiaidd yn y ddeunawfed ganrif llwyddodd i oroesi'r arweinwyr eraill i gyd. Galluogodd ei ddawn brydyddol iddo fedru lleisio ffydd y Methodistiaid a mynegi profiadau'r Deffroad Mawr.

Ar waethaf y gwres llethol a barodd i un gwrandawr lewygu ac er iddi hi ei hun gael ei brathu gan bryfn daliodd Dr White ati i draddodi ei darlith gan hoelio sylw ei gwrandawyr ar ei chyflwyniad. Llwyddodd i gyfleu aruthredd doniau diwinyddol a barddol Pantycelyn a phriodoldeb y gofeb marmor iddo yn Neuadd Ddinesig, Caerdydd. Yn y gofeb darlunnir

Pantycelyn wrth ei waith yn creu penillion cofiadwy.

Hwylusodd y paratodau gwych a wnaed gan Goleg Trefeca holl weithgarwch y dydd ac roedd digon o fwyd wedi ei baratoi ar gyfer y rhai nad oeddynt wedi dewis dod a'u picnic eu hunain. Mewn awyrgylch mor hamddenol, braf oedd clywed atgofion y rhai oedd yn bresennol o'u cyfnod yn Nhrefeca. Cyfeiriodd y Parch Maldwyn John at ei gyfnod fel myfyriwr a'r amser a dreuliodd yn lletya yn y Teras. A diau fod y Parch Jenny Garrard a'r Parch Ddr Nerys Tudor wedi dwyn i gof lawer o atgofion am eu cyfnodau hwythau yng nghartref Howell Harris.



Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth a gyfrannodd i gyfoeth profiad y prynhawn!

Cawsom gyfle yn y prynhawn, o dan arweiniad Margaret Daniel a chôr Bro Nest gyda Rosalind Powell yn cyfeilio, i gyd-ganu rhai o emynau Pantycelyn. Yn ddi-os cynorthwyodd gyfraniad y côr at gyfoeth ein profiad a chafwyd nifer o sylwadau buddiol a chyflwyniadau pwrpasol gan Dr. Rhidian Griffiths.

Y mae'n diolch i drefnwyr yr ŵyl yn fawr.

**Iain Hodgins (Parch)
Golygydd y Treasury**

(Mae mwy o luniau i'w gweld ar ein gwefan – www.ebcpcw.cym)